CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION - EBRILL 2015

DYDDIAD	Nos Fercher, 15 Ebrill
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	Ysgol Rhostryfan

1.	**Croeso** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd, yn bresennol roedd Gwilym Ll Williams (Cadeirydd), Tom Ellis, Aeron M Jones, Elwyn Jones, Nerys Evans, Michelle Williams, Jason Hunt, Rhys Owen. Hefyd yn bresennol roedd Caryl E Lewis (Clerc)
2.	**Ymddiheuriadau** Neal Williams, Elin Evans, Gwilym V Thomas
3.	**Datgan Buddiant**
4.	**Cadarnhau cofnodion 18 Mawrth 2015** Cytunwyd fod y cofnodion yn gywir
5.	**Materion i'w trafod:** a. **Cyfansoddiad, Polisiau a Cynllun 5 mlynedd** Mae'n debyg y bydd rol y cynghorau cymuned yn cryfhau dros y blynyddoedd nesa, gyda mwy o bwyslais ar gynghorau cymuned i wneud gwaith ar ran y Cyngor Sir. Angen diweddaru rheolau, cyfansoddiad ayb…Hefyd angen cael cynllun busnes – angen i gynllunio ymlaen, b. **Tendrau – diweddariad** Wyn a Sion wedi derbyn a wedi gyrru'r cytundebau a thystysgrifau yswiriant yn ol c. **Tap dwr y fynwent – diweddariad** Nodwyd fod 2 opsiwn wedi ei gyflwyno gan Sion Owen, sef agor draen o'r stop tap i'r tap gwreiddiol neu gosod tap newydd gyferbyn ar stop tap. Cytunwyd ar osod tap newydd gyferbyn ar stop tap. Roedd aelodau yn awyddus mai tap sydd yn mynd i ffwrdd ar ben ei hun sydd yn cael ei ddefnyddio. Clerc i drefnu gyda Sion. d. **Llwybr Waun Bant – diweddariad** Clerc yn nodi ei bod wedi cael cyfarfod gyda Gerallt, Swyddog Llwybrau. Mae yna nifer o ffurflenni i'w cwblhau er mwyn cofrestru'r llwybr. Mae angen darparu llawer iawn o dystiolaeth fod y llwybr yn cael ei ddefnyddio a llythyrau o gefnogaeth. Aelodau ddim yn hollol siwr os ydy'r llwybr sydd ar y map a dderbyniwyd gan Cyngor Gwynedd yn gywir, bydd angen cyfarfod safle gyda Cyngor Gwynedd, cynnigwyd hefyd fod Helen Griffiths yn cael cynnig dod i'r cyfarfod. Nododd AMJ y byddai Adran Economi ac Adfywio y Cyngor yn barod i roi llythyr o gefnogaeth yn sgil prosiect sydd ar y gweill i agor hen lwybrau ardal llechi. e. **Japanese knotweed - grantiau (RO)** RO yn nodi ei fod yn anodd cael grantiau ond y gallai bod yn ddefnyddiol mapio ymhle mae'r broblem o fewn yr ardal a rhoi cais am grant i ariannu'r gwaith hwnnw. Mae lein Bryngwyn yn cael ei drin yn flynyddol a bydd angen i'r Clerc drefnu at mis medi. f. **Problemau gyda'r Afon o Bont Carreg Lwyd (JH)** Afon wedi llenwi gyda cerrig, felly dim lle i'r afon, pan mae'r lefel dwr yn codi, mi all yr afon godi dros y bont a rhedeg lawr yr allt. Mae wedi gorlifo o'r blaen a mae trigolion lleol yn poeni y bydd yn gorlifo eto. Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg gyferbyn hefyd, felly mae yn niddordeb y Cyngor Cymuned i'w sortio. Oes posib cael grantiau i

	wneud y gwaith? Angen cael prisiau gan gontractwyr i glirio gyda mini digger. Clerc i drefnu gael prisiau. g. **Problem sbwriel rhwng Rhosgadfan, Rhostryfan a Ffrwd Cae Du (EJ)** Problem drwy'r flwyddyn. Tybed oes bosb cael arwyddion? Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Peter Simpson wedi ymateb yn nodi ei fod wedi pasio pryderon aelodau at y Tîm Glanhau Strydoedd a hefyd wedi trefnu i swyddog gorfodaeth cynnal arolwg o'r ardal. Nodwyd nad oes unrhyw arwyddion penodol ar gael ar gyfer problemau ysbwriel ar ymylon ffyrdd. Nododd hefyd eu bod yn bwriadu troi'r ffocws ar y rheiny sy'n achosi'r broblem yn y misoedd i ddod. h. **Datblygiadau ar y Tir ger Sain (EE)** EE wedi adrodd fod y problemau yn parhau a fod tannau yn cael eu cynnal ar y tir a llanast yno. Nododd y Clerc ei bod wedi gyrru llythyr at Uned Gorfodaeth yr Adran Gynllunio ond heb dderbyn ymateb eto. Nododd AMJ nad oedd ganddo ddiweddariad ond ei fod yn ymwybodol fod trafferth gyda adnabod perchnogaeth tir wedi bod. i. **Problem gyda loriau chwarel yn dod drwy Rhosgadfan (GVT**) Cwynion wedi ei derbyn fod loriau chwarel yn mynd drwy Rhosgadfan. Clerc wedi llythyru Gareth Roberts yn yr Adran Priffyrdd. Ymateb gan Gareth Roberts ar ebost: *Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gytundeb mewn perthynas a'r datblygiad yma, ac argymhellaf ichi gysylltu â Dafydd Gareth Jones, sef Uwch Swyddog Mwynau a Gwastraff yr Uned Cynllunio am gadarnhad o unrhyw amodau neu gytundebau a gytunwyd o dan y caniatâd cynllunio ar gyfer chwarel Foel.* *Fel ymateb ar ran yr Uned Drafnidiaeth i'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cais, argymhellais i'r ymgeisydd i ddylunio'r fynedfa ar damaid o droiead i hwyluso mynediad yn bennaf o gyfeiriad Carmel neu Y Fron, i annog lorïau i osgoi pentrefi Rhosgadfan a Rhostryfan.* *Deallaf fodd bynnag y mae rhai cwmnïau yn dewis mynd trwy Rhosgadfan / Rhostryfan ac yn anffodus nid oes unrhyw reolau na chytundeb imi wybod amdano i wahardd hynny. Fel cerbydau gyda threth cerbyd ag yswiriant yn dechnegol mae ganddynt pob hawl yn gyfreithiol i ddefnyddio unrhyw ffyrdd lleol, a heblaw bod rheswm peirianyddol fel er enghraifft pont gwan ni allwn wahardd traffig trwm trwy'r pentrefi.* *Er hynny mi gysylltaf a rheolwr y chwarel gan ofyn os oes modd iddo ddod a'r mater i sylw'i gyrwyr.* Bydd y clerc yn mynd ati i gysylltu gyda Dafydd Gareth Roberts i wneud rhagor o ymholiadau. j. **Cau cyfrifon 2014-15 – trefniadau** Nododd y Clerc fod angen cau cyfrifon 2014-15 a'i gyrru i'r archwilwyr erbyn 21 Mai. Clerc i fynd ati i drefnu cyfarfod o'r is-grwp cyllid i fynd drwy'r cyfrifon. k. **Cytundeb gwaith Clerc** Nododd y clerc nad oedd ganddi gytundeb gwaith. Aelodau yn cytuno ei fod yn bwysig ei gael a gofyn i'r Clerc ddrafftio cytundeb. AMJ i yrru enghreifftiau ymlaen.
6.	**Derbyn Adroddiadau** **Problem chwarae peldroed yn Rhosgadfan** Clerc wedi derbyn ebost gan PC Mathew Tapping. Mae wedi gorfod rhybuddio

	hogiau ifanc am chwarae peldroed ar y stryd, roeddynt yn cwyno nad oes nunlle arall iddynt chwarae. Yr heddlu yn holi a oes modd edrych mewn i ail-godi y pyst peldroed yn yr hen gae chwarae. Nododd AMJ y byddai yn gwneud ymholiadau am yr hen gae gan ei fod yn eistedd ar bwyllgor y Cae Chwarae. Yna gallwn edrych mewn i ail-osod pyst, mae digon o ffynhonellau grant y gallwn edrych mewn iddynt ar gyfer y math yma o gynllun. **Problem gyda latch ar giat ar lwybr Bryngwyn** Ebost wedi ei dderbyn gan Vin West, Cadeirydd y Grwp Mynediad ar ran Helen Griffith yn nodi ei bod yn cael trafferthion agor giat ar lein Bryngwyn a chais i newid y 'latch'. Nododd aelodau gan nad oes cwynion eraill wedi eu derbyn felly mae'n anodd cyfiawnhau ei newid, ond byddent yn nodi y sylwadau ac os derbynnir sylwadau pellach byddent yn ystyried rhoi latch newydd. **EJ –** Nodi fod pallets wedi eu gadael yn y maes parcio ar lein Bryngwyn. JH am eu symud.
7.	**Is-bwyllgorau** Dim i'w adrodd
8.	**Materion Ariannol (Adroddiad ariannol i'w gyflwyno yn y cyfarfod)** Derbyn adroddiad ariannol y clerc. **Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 14 Ebrill 2015** **Balans a ddygwyd ymlaen:** Cyfrif Cadw £4,127.13 Cyfrif Siec £8,675.37 **Ers cyfarfod 18 Mawrth 2015, talwyd allan:** 101293 Cynllun Rhandir Rhostryfan £300.00 101296 Cyllid y Wlad (Maw) £90.00 101295 Caryl E Lewis £402.50 101294 Antur Nantlle £108.00 101298 Wyn Williams £460.50 101297 Trinity Mirror £154.80 £1515.30 **Ers cyfarfod 18 Mawrth 2015, talwyd i mewn:** Robyns & Owen (2 gladdiad) £200.00 EW Pritchard Llanberis (1 claddiad) £100.00 Gwilym Jones & son (1 claddiad) £230.00 Gross Interest Cyfrif Cadw £0.62 £530.62 **Yn y Cyfrif Cadw ar derfyn busnes 14 Ebrill 2015: £4,127.75** **Yn y Cyfrif Siec ar derfyn busnes 14 Ebrill 2015: £7,689.57** **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 15 Ebrill 2015:** Cyflog Clerc 402.50 Cyllid y Wlad (Swyddfa'r Post) 90.00 Lleu 15.00 Sion Owen 210.00 **Cyfanswm £717.50**

9.	**Materion Cynllunio** Tir ger Chatham Farm C15/0210/24/LL– dim sylw Fron Deg, Rhostryfan C15/0199/24/DA– Dim sylw Cerdd y Nant, Rhostryfan C15/0317/24/LL – Dim sylw
10.	**Gohebiaeth** Nodwyd fod llythyrau diolch am nawdd yn parhau i gyrraedd. Yn ychwanegol roedd y canlynol wedi eu derbyn: Llythyr blynyddol gan Hacker Young Llythyr gan Cyngor Gwynedd yn nodi newid yn nhrefniadau gofyn am gyngor cychwynnol ar geisiadau cynllunio Gohebiaeth gan Cyngor Tref Caernarfon gyda sylwadau cychwynnol ar y papur gwyn
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** RO – Cynnig i ystyried cynnal y cyfarfodydd mewn lleoliadau eraill e.e. canolfan llanwnda, ysgol Rhosgadfan. Clerc i wneud ymholiadau. NW - William Green, Rhosgadfan wedi datgan diddordeb mewn bod yn aelod– angen iddo lythyru yn datgan diddordeb mewn bod yn aelod. NE - Y fynwent – hysbysfwrdd wrth y giat – angen rhoi copi newydd o'r rheolau yno. Hefyd bydd angen i Is-bwyllgor y fynwent i edrych ar ffioedd y fynwent ar ol mis mai. EJ - Maes parcio sdesion – tyllau wedi codi – Angen i'r cler ofyn wrth sion neu wyn i lenwi nhw, llwch llechi? Jason am glirio'r pallets EJ - Fern Villa – golau ar lon dolydd yn llachar iawn (ty cyntaf ar y dde pan yn mynd am dolydd). Cysylltu gyda Priffyrdd. NE - llwybr gyda terfyn Glan Wern (darn gwair) ochr y lon (grass verge), lot o bethau od wedi cael eu plannu (coed a shrubs). Holi Cyngor sir? MW – goleuadau yn white towers – dallu pobl yn nos. Ty'n Rhos hefyd. GW - Bocs GPO rhwng Pen y Groeslon a Bryn Melyn (Rhos Isaf), bocs wedi dechrau cracio. BT. RO - Groesffordd Saron – grass verge wedi ei chael hi, chydig bach o kerbs i sianelu'r dwr EE – palmant rhwng ffrwd cau a dinas wedi culhau, angen ei glirio. **Daeth y cyfarfod i ben am 8:50yh** **Dyddiad Cyfarfod nesaf: 20 Mai 2015**